## ATODLEN 1

Rheoliadau 9, 10 a 13

Ethol a phenodi aelodau

**1.** Caiff yr awdurdod ddirprwyo i'r athro neu'r athrawes â gofal am uned unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan yr Atodlen hon.

### Ethol a phenodi rhiant-aelodau

**2.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 1 a 3 i 6, rhaid i'r awdurdod wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer ethol rhiant-aelodau.

**3.** Nid yw'r ddyletswydd a osodir gan baragraff 2 yn cynnwys pŵer i osod unrhyw ofynion o ran yr isafswm o bleidleisiau y mae'n ofynnol iddynt gael eu bwrw er mwyn i aelod gael ei ethol.

**4.** Rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol ar gyfer unrhyw etholiad a ymleddir.

**5.**—(1) Rhaid i'r trefniadau a wneir o dan baragraff 2 ddarparu bod pob person sydd â'r hawl i bleidleisio yn cael y cyfle i wneud hynny drwy'r post.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), mae "post" ("*post*") yn cynnwys danfon drwy law.

(3) Caiff y trefniadau a wneir o dan baragraff 2 ddarparu bod pob person sydd â'r hawl i bleidleisio yn cael y cyfle i wneud hynny drwy ddull electronig.

**6.** Pan fo swydd rhiant-aelod yn dod yn wag, rhaid i'r awdurdod gymryd unrhyw gamau sy'n rhesymol ymarferol er mwyn sicrhau bod pob person y mae'n gwybod ei fod yn rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr uned neu yn un o'r unedau—

(a) yn cael ei hysbysu am y swydd wag a'i bod yn ofynnol i'r swydd honno gael ei llenwi drwy etholiad;

(b) yn cael ei hysbysu bod hawl ganddo i sefyll fel ymgeisydd ac i bleidleisio yn yr etholiad; ac

(c) yn cael y cyfle i wneud hynny.

**7.** Rhaid i nifer y rhiant-aelodau sy'n ofynnol gynnwys rhiant-aelodau a benodir gan y pwyllgor os oes un neu ragor o swyddi rhiant-aelodau gwag a bod nifer y rhieni sy'n sefyll i'w hethol yn llai na nifer y swyddi gwag.

**8.**—(1) Dim ond y rhai a ganlyn y caiff y pwyllgor eu penodi'n rhiant-aelod—

(a) rhiant i ddisgybl cofrestredig yn yr uned;

(b) rhiant i gyn-ddisgybl cofrestredig yn yr uned;

(c) rhiant i ddisgybl cofrestredig mewn uned arall, neu mewn ysgol a gynhelir yn ardal yr awdurdod;

(d) rhiant i blentyn sydd o oedran ysgol gorfodol; neu

(e) unrhyw riant.

(2) Ni chaiff y pwyllgor ond penodi person y cyfeirir ato yn is-baragraff (1)(b), (c), (d) neu (e) os nad oes unrhyw berson arall i'w benodi o is-baragraff (1)(a).

### Ethol staff-aelodau

**9.** Yn ddarostyngedig i baragraffau 1, 10 ac 11, rhaid i'r awdurdod wneud yr holl drefniadau angenrheidiol ar gyfer ethol staff-aelodau.

**10.** O ran y ddyletswydd a osodir gan baragraff 9—

(a) mae'n cynnwys y pŵer i wneud darpariaeth o ran dyddiadau cymhwyso; ond

(b) nid yw'n cynnwys y pŵer i osod unrhyw ofynion o ran yr isafswm o bleidleisiau y mae'n ofynnol iddynt gael eu bwrw er mwyn i ymgeisydd gael ei ethol.

**11.** Rhaid cynnal pleidlais gyfrinachol ar gyfer unrhyw etholiad a ymleddir.

**Penodi noddwr-aelodau**

**12.** Yn yr Atodlen hon, ystyr "noddwr" ("*sponsor*") mewn perthynas ag uned yw—

(a) person sy'n rhoi neu sydd wedi rhoi cymorth ariannol sylweddol (sydd at y dibenion hyn yn cynnwys buddion mewn nwyddau neu wasanaethau) i'r uned ac eithrio yn unol â rhwymedigaeth statudol; neu

(b) unrhyw berson arall (nad yw wedi ei gynrychioli fel arall ar y pwyllgor) sy'n darparu neu sydd wedi darparu gwasanaethau sylweddol i'r uned.

**13.** Pan fo gan yr uned un neu ragor o noddwyr, caiff yr offeryn llywodraethu ddarparu ar gyfer penodi pa nifer bynnag o noddwr-aelodau, na fydd yn fwy na dau, a enwebir yn unol â pharagraff 14.

**14.** Rhaid ceisio enwebiadau ar gyfer penodiadau o'r fath gan y noddwr neu (yn ôl y digwydd) gan un neu ragor o'r noddwyr.